



## TGAU Cymraeg Ail Iaith

### Cyflwyniad

Mae'r cymhwyster TGAU Cymraeg Ail Iaith yn cael ei ddiwygio yng Nghymru i'w addysgu gyntaf o fis Medi 2017. Caiff y cymhwyster TGAU Cymraeg Ail Iaith diwygiedig ei lunio a'i gyflwyno gan CBAC a dyma fydd yr unig fersiwn o'r cymhwyster fydd ar gael i ddysgwyr ar raglenni a ariennir gan y wladwriaeth yng Nghymru. Fel rhan o'r broses ddiwygio, rydym yn ceisio barn ar ein cynigion o ran cynnwys, strwythur ac asesiad y cymhwyster diwygiedig.

Wrth ddatblygu ein cynigion, rydym wedi ystyried sawl adroddiad ac adolygiad sy'n cynnwys cyfeiriadau at Gymraeg Ail Iaith, fel yr amlinellir isod.

- Un iaith i bawb: adolygiad o Gymraeg ail iaith yng Nghyfnodau Allweddol 3 a 4 (Medi 2013)[1]
- Iaith fyw: iaith byw – Bwrw mlaen (2014)[2]
- Dyfodol Llwyddiannus: Adolygiad Annibynnol o'r Cwricwlwm a'r Trefniadau Asesu yng Nghymru (2015)[3]

Mae Llywodraeth Cymru wedi cadarnhau mai ei pholisi yn y tymor hwy o ran addysgu ac asesu'r Gymraeg yw symud i fwrdd o'r cysyniad o'r Gymraeg fel ail iaith a thuag at gontinwmm cyffredin sy'n cwmpasu pob lefel o allu ieithyddol. Rydym yn cydweithio â Llywodraeth Cymru ac eraill i gytuno ar ffordd o roi'r weledigaeth honno ar waith yn ymarferol fel rhan o'r gwaith ar ddiwygio'r cwricwlwm yng Nghymru. Uchelgais Llywodraeth Cymru yw bydd ysgolion yn defnyddio y cwricwlwm newydd erbyn 2021.[4]

Yn y cyfamser, mae'r rhaglen bresennol o ddiwygiadau i gymwysterau TGAU a Safon Uwch yn rhoi cyfle i adolygu diwyg y cymhwyster TGAU Cymraeg Ail Iaith i'w addysgu gyntaf o 2017. Fel rhan o'r diwygiadau hyn, mae manylebau newydd eisoes wedi cael eu datblygu ar gyfer y cymhwyster TGAU Cymraeg Iaith Gyntaf, ac ar gyfer y cymwysterau Safon Uwch mewn Cymraeg Iaith Gyntaf a Chymraeg Ail Iaith.

Mae'r newidiadau a gynigiwn yn yr holiadur hwn yn cyd-fynd â nod Llywodraeth Cymru o gyflwyno un continwmm ar gyfer y Gymraeg. Er enghraifft, cynigiwn gysondeb cliriach rhwng y pwnc a'r Fframwaith Cyfeirio Cyffredin Ewropeaidd ar gyfer leithoedd, sef model sydd wedi ennill ei blwyf ar gyfer asesu caffael iaith a rhuglder ynddi, a allai helpu i ffurfio sail ar gyfer y continwmm Cymraeg a ragwelir. Rydym hefyd yn cynnig mwy o bwyslais ar ddatblygu ac asesu sgiliau cyfathrebu ymarferol. Drwy wneud hynny, ein nod yw annog athrawon a dysgwyr i ymarfer a meithrin sgiliau siarad a gwranddo drwy gydol y cwrs er mwyn helpu i fagu hyder dysgwyr wrth ddefnyddio'r iaith o ddydd i ddydd.

Mae ein cynigion yn ymwneud â chwrs llawn TGAU Cymraeg Ail Iaith newydd, y bwriedir ei addysgu o fis Medi 2017. Pan gaiff y fanyleb ddiwygiedig ei chyflwyno, bydd y cymwysterau cwrs llawn a chwrs byr presennol yn dod i ben. Dim ond y cwrs llawn diwygiedig fydd ar gael o'r adeg honno ymlaen. Mae rhagor o wybodaeth ar gael ar wefan Cymwysterau Cymru ynglŷn â phryd y bydd hen fanylebau TGAU yn cael eu hasesu am y tro olaf.

[1] <http://gov.wales/docs/dcells/publications/130926-review-of-welsh-second-lan-en.pdf>  
<http://gov.wales/docs/dcells/publications/130926-review-of-welsh-second-lan-cy.pdf>

[2] <http://gov.wales/docs/dcells/publications/140806-living-language-moving-forward-en.pdf>  
<http://gov.wales/docs/dcells/publications/140806-living-language-moving-forward-cy.pdf>

[3] <http://gov.wales/docs/dcells/publications/150225-successful-futures-en.pdf>  
<http://gov.wales/docs/dcells/publications/150317-successful-futures-cy.pdf>

[4] <http://gov.wales/topics/educationandskills/schoolshome/curriculum-for-wales-curriculum-for-life/?lang=en>  
<http://gov.wales/topics/educationandskills/schoolshome/curriculum-for-wales-curriculum-for-life/?lang=cy>



## TGAU Cymraeg Ail Iaith

### Cyfeirio lefel ddisgwyliedig y cymhwyster newydd

Mae'r Fframwaith Cyfeirio Cyffredin Ewropeaidd ar gyfer Ieithoedd (CEFR)[5] yn adnodd a ddefnyddir ym mhob rhan o'r byd i ddisgrifio sgiliau iaith dysgwyr. Mae'n pennu chwe lefel medrusrwydd a ddefnyddir i gyfeirio at wahanol gymwysterau iaith. Mae'r lefelau hefyd yn rhoi sail i addysgu ac asesu gallu ieithyddol dysgwr.

Ar hyn o bryd, ni chaiff cymwysterau TGAU na Safon Uwch mewn pynciau iaith a gynigir yng Nghymru, Lloegr (ac mewn manau eraill) eu cyfeirio'n ffurfiol at CEFR, nac at unrhyw fframweithiau cyfeirio eraill. Awgrymwn y gallai'r math hwn o fframwaith fod yn fan cychwyn defnyddiol er mwyn datblygu continwwm dysgu ac asesu ar gyfer y Gymraeg. Gan ystyried hynny, cynigiwn y dylid dylunio'r fanyleb TGAU Cymraeg Ail Iaith newydd mewn ffordd sy'n cyd-fynd â lefelau cyfeirio cyffredin CEFR.

Rydym wedi edrych ar y lefelau CEFR canlynol wrth ystyried ble i osod y cymhwyster TGAU Cymraeg Ail Iaith newydd.

[5] [http://www.coe.int/t/dg4/linguistic/Source/Framework\\_EN.pdf](http://www.coe.int/t/dg4/linguistic/Source/Framework_EN.pdf)

<b>Lefel CEFR</b>	<b>Disgrifiad</b>
A2 Defnyddiwr sylfaenol: Elfennol	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Yn gallu deall brawddegau ac ymadroddion a ddefnyddir yn aml sy'n ymwneud â'r meysydd mwyaf uniongyrchol berthnasol (e.e. gwybodaeth bersonol a theuluol sylfaenol iawn, siopa, daearyddiaeth leol, cyflogaeth).</li> <li>• Yn gallu cyfathrebu mewn tasgau syml ac arferol lle bo angen cyfnewid gwybodaeth am faterion cyfarwydd ac arferol mewn modd syml ac uniongyrchol.</li> <li>• Yn gallu disgrifio agweddau ar ei gefndir, yr amgylchedd cyfagos a materion mewn meysydd ag angen brys mewn modd syml.</li> </ul>
B1 Defnyddiwr annibynnol: Canolradd	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Yn gallu deall y prif bwyntiau mewn bwn safonol clir ar faterion cyfarwydd sy'n codi'n rheolaidd yn y gwaith, yn yr ysgol, mewn gweithgareddau hamdden ac ati.</li> <li>• Yn gallu delio â'r mwyafrif o sefyllfaoedd sy'n debygol o godi mewn maes lle caiff yr iaith ei siarad.</li> <li>• Yn gallu llunio testun syml cysylltiedig ar bynciau sy'n gyfarwydd neu o ddiddordeb personol.</li> <li>• Yn gallu disgrifio profiadau a digwyddiadau, breuddwydion, gobeithion a dyheadau a rhoi rhesymau ac esboniadau cryno dros farn a chynlluniau.</li> </ul>
B2 Defnyddiwr annibynnol: Canolradd uwch	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Yn gallu deall prif syniadau testun cymhleth ar bynciau diriaethol a haniaethol, gan gynnwys trafodaethau technegol yn ei faes arbenigedd.</li> <li>• Yn gallu rhyngweithio'n ddigon rhugl a digymell nes bod modd rhyngweithio â siaradwr brodorol heb beri straen i'r naill unigolyn na'r llall.</li> <li>• Yn gallu llunio testun clir a manwl ar ystod eang o bynciau ac esbonio barn ar fater amserol gan gyflwyno manteision ac anfanteision opsiynau amrywiol.</li> </ul>

Cynigiwn y dylid cynllunio'r cymhwyster TGAU Cymraeg Ail Iaith newydd mewn ffordd sy'n galluogi dysgwyr i gyflawni lefel B1 ac anelu at ddatblygu rhai elfennau o lefel B2.

**C1a: I ba raddau rydych yn cytuno neu'n anghytuno y dylai'r cymhwyster TGAU Cymraeg Ail laith newydd gyd-fynd â CEFR?**

- Cytuno'n gryf
- Cytuno
- Ddim yn cytuno nac yn anghytuno
- Anghytuno
- Anghytuno'n gryf
- Ddim yn gwybod

Sylwadau (a fyddech cystal â rhoi sylwadau, yn enwedig os ydych yn anghytuno â'r cynnig)

**C1b: I ba raddau rydych yn cytuno neu'n anghytuno y dylid cynllunio'r cymhwyster TGAU Cymraeg Ail laith newydd mewn ffordd sy'n galluogi dysgwyr i gyflawni a dangos gallu ieithyddol ar lefelau B1 a B2 CEFR?**

- Cytuno'n gryf
- Cytuno
- Ddim yn cytuno nac yn anghytuno
- Anghytuno
- Anghytuno'n gryf
- Ddim yn gwybod

Sylwadau (a fyddech cystal â rhoi sylwadau, yn enwedig os ydych yn anghytuno â'r cynnig)



## TGAU Cymraeg Ail Iaith

### Nodau ac amcanion

Gan ystyried yr adolygiadau a'r adroddiadau a gyhoeddwyd dros y blynyddoedd diwethaf ar agweddau amrywiol ar addysg iaith Gymraeg, awgrymwn y dylai'r fanyleb TGAU Cymraeg Ail Iaith newydd wneud y canlynol:

- canolbwyntio ar feithrin sgiliau siarad a gwrandio dysgwyr;
- paratoi dysgwyr i ddefnyddio'r Gymraeg mewn astudiaethau pellach, yn y gweithle ac yn eu cymuned;
- canolbwyntio ar feithrin sgiliau a strategaethau iaith er mwyn gallu rhyngweithio'n hyderus mewn sefyllfaoedd a chyd-destunau pob dydd;
- ennyn chwilfrydedd ynglŷn â'r Gymraeg a mwynhad ohoni;
- paratoi ymgeiswyr ar gyfer astudiaethau pellach o'r Gymraeg ac yn Gymraeg.

Rydym hefyd yn cynnig y dylid cynllunio'r cymhwyster TGAU Cymraeg Ail Iaith diwygiedig mewn ffordd sy'n gwneud y canlynol:

1. Annog dysgwyr i fwynhau cyfathrebu yn y Gymraeg ac i ymarfer a meithrin eu hyder a'u gallu i ddefnyddio'r iaith mewn ystod o sefyllfaoedd personol, cymdeithasol a galwedigaethol
2. Meithrin y sgiliau siarad, gwrandio, darllen ac ysgrifennu sydd eu hangen ar ddysgwyr i wneud y canlynol:
  - mynegi eu hunain ar lafar er mwyn ymateb i sefyllfaoedd pob dydd a llwyddo i gael gwybodaeth gan eraill;
  - darllen a deall ystod o destunau arferol, gan gynnwys strwythurau brawddeg cymhleth o fewn maes pwnc cyfarwydd;
  - ysgrifennu gan ddefnyddio ystod o wahanol ffurfiau ar ddeunydd pwnc cyfarwydd;
  - dewis ac addasu iaith lafar ac ysgrifenedig yn unol â gwahanol sefyllfaoedd a dibenion;
  - meithrin sgiliau dysgu iaith er mwyn eu galluogi i wella eu gafael ar yr iaith ymhellach.

Yn unol â'r nodau hyn, cynigiwn y dylai'r fanyleb TGAU Cymraeg Ail Iaith newydd gael ei chynllunio i gyflawni'r amcanion canlynol.

**Gwranddo:** Deall gwahanol fathau o iaith lafar mewn cyd-destunau cyfarwydd, gan gynnwys sgysiau, cyflwyniadau, adroddiadau newyddion a rhaglenni teledu, ac ymateb iddynt.

**Darllen:** Deall iaith ysgrifenedig ar wahanol ffurfiau ysgrifenedig a ysgrifennwyd at amrywiaeth o ddibenion ac ar gyfer amrywiaeth o gynulleidfaoedd, gan gynnwys llythyrau, erthyglau, blogiau, negeseuon e-bost, tudalennau gwe, fforymau ar-lein, deunydd marchnata, testun cyfeirio a thestun llenyddol, ac ymateb i'r iaith honno.

**Siarad:** Cyfathrebu a rhyngweithio'n ddigymell ac yn effeithiol mewn sefyllfaoedd sy'n codi'n aml, disgrifio profiadau, rhoi rhesymau ac esboniadau, gwneud cynlluniau, mynegi barn, adrodd plot llyfrau a ffilmiau a disgrifio ymatebion. Defnyddio ystod o strategaethau i gefnogi a chynnal cyfathrebu effeithiol, gan gynnwys gofyn cwestiynau er mwyn cael eglurhad o ystyr a chael gwybodaeth.

**Ysgrifennu:** Ysgrifennu at wahanol ddibenion ac ar gyfer gwahanol gynulleidfaoedd ar faterion sydd o ddiddordeb personol gan fynegi barn, cyfleu gwybodaeth, disgrifio ac egluro, gan ddefnyddio ystod o ffurfiau ysgrifenedig, gan gynnwys llythyrau, negeseuon e-bost, adroddiadau, erthyglau a thraethodau.

## **C2: I ba raddau rydych yn cytuno neu'n anghytuno â'r nodau a deilliannau dysgu pwnc arfaethedig ar gyfer TGAU Cymraeg Ail Iaith?**

- Cytuno'n gryf
- Cytuno
- Ddim yn cytuno nac yn anghytuno
- Anghytuno
- Anghytuno'n gryf
- Ddim yn gwybod

Sylwadau (a fydddech cystal â rhoi sylwadau, yn enwedig os ydych yn anghytuno â'r cynnig)



## TGAU Cymraeg Ail Iaith

### Cynnwys pwnc

Cynigiwn ei bod yn rhaid i'r cynnwys sy'n ofynnol yn y manylbau TGAU Cymraeg Ail Iaith adlewyrchu nodau ac amcanion y cymhwyster mewn ffordd sy'n hyrwyddo dull integredig o feithrin sgiliau siarad, gwranddo, darllen ac ysgrifennu. I'r perwyl hwnnw, cynigiwn y dylai'r cynnwys a bennir ar gyfer y cymhwyster TGAU Cymraeg Ail Iaith newydd fod yn amodol ar y gofynion canlynol.

Rhaid i'r cynnwys pwnc:

- Fod yn berthnasol ac yn ystyrlon i ddysgwyr mewn ystod o gyd-destunau, ac sy'n briodol i'w hoedran a'u diddordebau;
- Ac adlewyrchu diwylliant a chymunedau Cymru.

Rhaid i'r cynnwys pwnc ei gwneud yn ofynnol i'r myfyrwyr wneud y canlynol:

- deall a defnyddio iaith amrywiaeth o ddibenion, gydag amrywiaeth o wahanol gynulleidfaoedd, gan gynnwys at ddibenion personol ac addysgol ac at ddibenion sy'n ymwneud â chyflogaeth;
- addasu eu hiaith, gan gynnwys anerchiad a chywair anffurfiol a ffurfiol, er mwyn gweddu i wahanol gynulleidfaoedd ac ystod o sefyllfaoedd, gan gynnwys sefyllfaoedd cymdeithasol ac addysgol a sefyllfaoedd yn y cartref a'r gweithle;
- deall gwahanol fathau o iaith lafar, gan gynnwys mewnbwn wedi'i recordio gan un neu fwy o siaradwyr ar goedd ac mewn sefyllfaoedd cymdeithasol a deunydd wedi'i recordio o ffynonellau dilys a'r cyfryngau, sy'n cwmpasu ystod o sgysiau, cyflwyniadau, adroddiadau newyddion a rhaglenni teledu;
- deall gwahanol fathau o iaith ysgrifenedig, eu dehongli a'u dadansoddi'n feiriadol, gan gynnwys cyfathrebu personol perthnasol, gwybodaeth gyhoeddus a thestunau ffeithiol a llenyddol, sy'n briodol i lefel y cymhwyster, o ystod o lythyrau, erthyglau, blogiau, negeseuon e-bost, tudalennau gwe, fforymau ar-lein, adroddiadau, deunyddiau marchnata, testunau cyfeirio a llenyddol at ddibenion esbonio, cyfarwyddo, adrodd, disgrifio, perswadio a rhannu gwybodaeth;
- defnyddio gramadeg, cystrawen ac idiom briodol.



**C3: I ba raddau rydych yn cytuno neu'n anghytuno â'r cynnwys pwnc arfaethedig ar gyfer y cymhwyster TGAU Cymraeg Ail Iaith**

- Cytuno'n gryf
- Cytuno
- Ddim yn cytuno nac yn anghytuno
- Anghytuno
- Anghytuno'n gryf
- Ddim yn gwybod

Sylwadau (a fydddech cystal â rhoi sylwadau, yn enwedig os ydych yn anghytuno â'r cynnig)



## TGAU Cymraeg Ail Iaith

### Sgiliau trawsieithu

Mae sgiliau trawsieithu yn cyfeirio at allu dysgwr i weithredu mewn dwy iaith, lle caiff gwybodaeth ei derbyn mewn un iaith a'i defnyddio neu ei chyfleu ymhellach mewn iaith arall.

Cynigiwn y dylai'r cymhwyster TGAU Cymraeg Ail Iaith newydd annog dysgwyr i feithrin sgiliau trawsieithu. Yn benodol, cynigiwn y dylai'r asesiad o sgiliau darllen ac ysgrifennu gynnwys o leiaf un dasg trawsieithu lle bo rhaid i fyfyrwr ysgrifennu ymateb yn Gymraeg i dasg ysgrifennu a osodwyd yn Saesneg.

#### **C4: I ba raddau rydych yn cytuno neu'n anghytuno â'r cynnig y dylid cynnwys sgiliau trawsieithu yn y cymhwyster TGAU Cymraeg Ail Iaith diwygiedig?**

- Cytuno'n gryf
- Cytuno
- Ddim yn cytuno nac yn anghytuno
- Anghytuno
- Anghytuno'n gryf
- Ddim yn gwybod

Sylwadau (a fyddech cystal â rhoi sylwadau, yn enwedig os ydych yn anghytuno â'r cynnig)



## TGAU Cymraeg Ail Iaith

### Amcanion asesu

Dyma'r amcanion asesu presennol ar gyfer TGAU Cymraeg Ail Iaith[6]:

Amcanion Asesu		Pwysoliad presennol tuag at y marc terfynol
AA1	Llefaredd – defnyddio iaith mewn sefyllfaoedd amrywiol a realistig; delio ag ystod o gystrawen ar gyfer cyfathrebu ar lafar ac ymateb i ysgogiadau a sefyllfaoedd amrywiol fel unigolion ac fel aelodau o grŵp, gan ddefnyddio cywair priodol a thalu sylw i safonau a rhuglder ieithyddol;	40%
AA2	Darllen – darllen a deall amrywiaeth o ddeunyddiau priodol; dewis deunydd perthnasol at ddibenion pwrpasol a chyfleu ystyr testun i bobl eraill; ymateb i ddeunyddiau darllen, mynegi barn ar eu cynnwys gan gyfeirio at y testun i ategu'r farn honno	30%
AA3	Ysgrifennu – ysgrifennu gan ddefnyddio amrywiaeth o ffurfiau ac at wahanol ddibenion; dylai ymgeiswyr ddangos eu gallu i ddefnyddio ystod o eirfa, strwythurau brawddeg ac ymadroddion yn effeithiol, a defnyddio arddull priodol; dylent ddangos meistrolaeth gynyddol ar baragraffu, cystrawen, sillafu ac atalnodi.	30%

[6][http://www.cbac.co.uk/uploads/publications/7942.pdf?language\\_id=2](http://www.cbac.co.uk/uploads/publications/7942.pdf?language_id=2)

Mae'r amcanion asesu ar gyfer y cymwysterau UG a Safon Uwch Cymraeg Ail Iaith newydd fel a ganlyn:

<b>Amcanion Asesu</b>		<b>Pwysoliad presennol tuag at y marc terfynol</b>
<b>AA1</b>	<p><b>Defnyddio iaith lafar</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Siarad yr iaith yn gywir ac yn hyderus, gan ddangos ystod o adnoddau ieithyddol; defnyddio cywair ieithyddol sy'n briodol i'r cyd-destun.</li> <li>• Gwrando'n astud; ymateb yn synhwyrol/deallus gan ofyn cwestiynau a ffurfio safbwyntiau a syniadau perthnasol mewn modd cytbwys.</li> <li>• Rhyngweithio, crynhoi a dod i gasgliadau cytbwys.</li> </ul>	<b>25%</b>
<b>AA2</b>	<p><b>Ymateb i destunau</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Arddangos gwybodaeth am destunau penodol a'u cefndir, drwy wneud dadansoddiad beirniadol sy'n trafod ac yn gwerthuso dehongliadau eraill.</li> <li>• Gwerthfawrogi gwahanol genres llenyddol ac ymateb iddynt.</li> <li>• Ymateb yn rhesymegol i bynciau llenyddol, gweledol a ffeithiol, ar lafar ac yn ysgrifenedig, drwy ddethol a dehongli deunydd perthnasol.</li> <li>• Cyfeirio'n benodol at y testun gwreiddiol a chyfiawnhau'r cyfeiriad.</li> <li>• Trawsieithu drwy ddeall a dehongli'r testun. Hefyd, bydd pob ymgeisydd <b>Safon Uwch</b> yn gwneud y canlynol:</li> <li>• Coladu, cymharu a gwerthuso gwybodaeth a gyflwynwyd drwy gyfryngau amrywiol, croesgyfeirio deunyddiau eraill, crynhoi a dod i gasgliadau cytbwys.</li> </ul>	<b>25%</b>
<b>AA3</b>	<p><b>Defnyddio iaith ysgrifenedig</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Ysgrifennu'n gywir, yn glir ac yn rhugl, gan ddangos ystod o adnoddau ieithyddol.</li> <li>• Defnyddio gwybodaeth am ramadeg yn effeithiol o fewn cyd-destunau amrywiol.</li> <li>• Dangos ymwybyddiaeth o gyweiriau ieithyddol amrywiol a defnyddio'r Gymraeg yn effeithiol mewn gwahanol sefyllfaoedd ac at wahanol ddibenion.</li> </ul> <p>45%</p>	<b>50%</b>

Cynigiwn y dylai'r amcanion asesu ar gyfer TGAU Cymraeg Ail Iaith fod fel a ganlyn:

<b>Amcanion Asesu</b>		<b>Pwysoliad tuag at y marc terfynol</b>
AA1	Gwrando – deall ac ymateb i wahanol fathau o iaith lafar mewn cyd-destunau cyfarwydd	25%
AA2	Darllen – deall ac ymateb i amrywiaeth o iaith ysgrifenedig ynglŷn â materion cyfoes, mynegi agweddau neu farn benodol a disgrifio digwyddiadau, teimladau a hoffterau	25%
AA3	Siarad – cyfathrebu a rhyngweithio'n effeithiol mewn ystod o gyd-destunau, gan gynnwys sefyllfaoedd ffurfiol ac anffurfiol	25%
AA4	Ysgrifennu – cyfathrebu'n ysgrifenedig ynglŷn â materion o ddiddordeb personol gan fynegi barn a chyfleu disgrifiadau ac esboniadau at wahanol ddibenion ac ar gyfer gwahanol gynulleidfaoedd	25%

Y cydbwysedd rhwng asesu drwy arholiadau ac asesiadau nas cynhelir drwy arholiadau.

Mae'r Adolygiad o Gymwysterau ar gyfer pobl ifanc 14 i 19 oed yng Nghymru yn argymhell y dylai cymwysterau TGAU newydd "ganiatáu defnyddio asesu dan reolaeth dim ond pan fydd achos clir dros wneud hynny oherwydd natur y dysgu sy'n cael ei asesu".

Mae asesiadau nas cynhelir drwy arholiadau yn bwysig i gymwysterau sy'n seiliedig ar iaith er mwyn sicrhau bod yr asesiad yn gwobrwyo dysgwyr a'u hannog i gyfathrebu'n hyderus mewn sefyllfaoedd pob dydd. Felly, dylid cynllunio'r asesiadau mewn ffordd sy'n gwobrwyo ymgeiswyr am gymhwyso strategaethau a thechnegau priodol ar gyfer deall a chyfleu ystyr mewn sefyllfaoedd di-sgript/digymell.

Y gyfran o asesiadau nas cynhelir drwy arholiadau ar gyfer y cymhwyster TGAU Cymraeg Ail Iaith presennol yw 40%. Cynigiwn y dylai'r pwysoliad o ran asesiadau nas cynhelir drwy arholiadau ar gyfer y cymhwyster TGAU Cymraeg Ail Iaith diwygiedig fod yn 50%, gan adlewyrchu pwysoliad cyfunol yr amcanion asesu ar gyfer siarad a gwrando.

Rydym hefyd yn cynnig ei bod yn rhaid i o leiaf 15% o'r marciau sydd ar gael ar gyfer gwrando gael eu dyrannu i asesiad gwrando a osodir yn allanol.\*

\*Newidiwyd y frawddeg hon ar 05/04/2016.

**C5a: I ba raddau rydych yn cytuno neu'n anghytuno â'r cynnig y bydd asesiadau nas cynhelir drwy arholiad yn cyfrannu at 50% o gyfanswm pwysoliad asesu'r cymhwyster TGAU Cymraeg Ail laith diwygiedig?**

- Cytuno'n gryf
- Cytuno
- Ddim yn cytuno nac yn anghytuno
- Anghytuno
- Anghytuno'n gryf
- Ddim yn gwybod

Sylwadau (a fydddech cystal â rhoi sylwadau, yn enwedig os ydych yn anghytuno â'r cynnig)

**C5b: I ba raddau rydych yn cytuno neu'n anghytuno â'r cynnig y dylai o leiaf 15% o'r marciau ar gyfer asesu'r cymhwyster TGAU Cymraeg Ail laith newydd gael eu dyrannu i arholiad gwrando a osodir yn allanol?**

- Cytuno'n gryf
- Cytuno
- Ddim yn cytuno nac yn anghytuno
- Anghytuno
- Anghytuno'n gryf
- Ddim yn gwybod

Sylwadau (a fydddech cystal â rhoi sylwadau, yn enwedig os ydych yn anghytuno â'r cynnig)



## TGAU Cymraeg Ail Iaith

### Haenu

Mewn rhai cymwysterau TGAU, caiff rhan o'r cymhwyster, neu'r cymhwyster cyfan, ei asesu drwy bapurau arholiad haenog. Mewn asesiadau haenog, mae gwahanol raddau ar gael ar bob haen; yn y rhan fwyaf o gymwysterau TGAU y graddau posibl yw A\* i D yn yr haen uchaf, a graddau C i G yn yr haen sylfaen.

Mae'r Adolygiad o Gymwysterau ar gyfer pobl ifanc 14 i 19 oed yng Nghymru yn argymhell " *caniatáu haenu o fewn cymwysterau TGAU dim ond pan fydd achos clir dros wneud hynny oherwydd natur y pwnc*".

Mae cymwysterau TGAU mewn rhai pynciau yn haenog oherwydd ar gyfer rhai pynciau caiff lefel anhawster yr asesiad ei phennu yn fwy gan y ffordd y mae ymgeiswyr yn ymateb i gwestiynau (cwestiynau ar ffurf traethawd er enghraifft) yn hytrach na'r cwestiwn ei hun, tra mewn pynciau eraill caiff y lefel o anhawster ei phennu'n fwy gan natur y cwestiwn a ofynnir na'r ateb a roddir (megis lle nad oes ond un ateb cywir). Mae pynciau sy'n dibynnu mwy ar anhawster y cwestiynau i wahaniaethu rhwng ymgeiswyr yn tueddu i gael asesiad haenog. Mae asesiad haenog yn osgoi'r heriau sy'n gysylltiedig â cheisio gosod un papur er mwyn asesu carfan gyfan. Oni fyddai'r pynciau hyn yn haenog, yna byddai'n rhaid i'r papurau arholiad fod yn fwy er mwyn cynnwys digon o gwestiynau ar bob lefel o anhawster, a fyddai'n cynyddu faint o asesiad y byddai ei angen. Mae hefyd risg y byddai'r asesiad yn llai dibynadwy, oherwydd bod ymchwil yn dangos bod yr ymgeiswyr mwy galluog yn aml yn colli marciau ar gwestiynau llai heriol a bod ymgeiswyr llai galluog yn colli cymhelliant gan y cwestiynau mwy heriol.

Ar hyn o bryd, mae'r cymhwyster TGAU Cymraeg Ail Iaith wedi'i haenu. Cynigiwn y dylai'r asesiadau ar gyfer y cymhwyster TGAU Cymraeg Ail Iaith newydd barhau i fod yn haenog. Byddai hyn yn sicrhau bod modd darparu deunyddiau a thasgau asesu, megis testunau ar gyfer darllen a gwrando a phynciau, dibenion a chynulleidfaoedd ar gyfer siarad ac ysgrifennu, ar lefel briodol er mwyn dangos yr ystod lawn o raddau sydd ar gael.

Fel yn achos y cymwysterau TGAU Llenyddiaeth Gymraeg a TGAU Ieithoedd Tramor Modern newydd, cynigiwn y dylid caniatáu mynediad haenau cymysg. Mae hyn er mwyn sicrhau y gall y dysgwyr hynny sydd â chryfderau gwahanol ar draws y pedwar maes sgiliau sefyll yr haenau asesu mwyaf priodol.

**C6a: I ba raddau rydych yn cytuno neu'n anghytuno â'r cynnig y dylai'r cymhwyster TGAU Cymraeg Ail Iaith diwygiedig fod yn gymhwyster haenog?**

- Cytuno'n gryf
- Cytuno
- Ddim yn cytuno nac yn anghytuno
- Anghytuno
- Anghytuno'n gryf
- Ddim yn gwybod

Sylwadau (a fydddech cystal â rhoi sylwadau, yn enwedig os ydych yn anghytuno â'r cynnig)

**C6b: I ba raddau rydych yn cytuno neu'n anghytuno â'r cynnig y dylid caniatáu mynediad haenau cymysg yn y cymhwyster TGAU Cymraeg Ail Iaith newydd?**

- Cytuno'n gryf
- Cytuno
- Ddim yn cytuno nac yn anghytuno
- Anghytuno
- Anghytuno'n gryf
- Ddim yn gwybod

Sylwadau (a fydddech cystal â rhoi sylwadau, yn enwedig os ydych yn anghytuno â'r cynnig)





## TGAU Cymraeg Ail Iaith

### Strwythur asesu

Mae Argymhelliad 24 yr Adolygiad o Gymwysterau yn nodi y bydd cyfleoedd asesu ar gael ym mis Ionawr yn ogystal â mis Mehefin, lle caniateir ailsefyll unwaith yn unig fesul uned gyda'r marc uchaf yn cael ei gyfrif.

Felly, mae'r argymhelliad yn galluogi dull cwbl unedig, dull cwbl llinol, neu ddull cymysg lle bydd rhai o'r unedau, neu bob un ohonynt, ar gael yn ystod cyfres yr haf yn unig.

Cynigiwn y dylai'r asesiadau ar gyfer y cymhwyster TGAU Cymraeg Ail Iaith newydd fod yn llinol oherwydd y gydberthynas rhwng pob dull o feithrin sgiliau iaith, h.y. bydd siarad, gwranddo, darllen ac ysgrifennu yn meithrin ac yn gwella pob sgil. Meithrin sgiliau mewn modd integredig ac yna gynnal asesiad crynodol ar ddiwedd y cwrs yw'r ffordd orau o sicrhau llwyddiant ym mhob ffurf o gyfathrebu.

#### **C7: I ba raddau rydych yn cytuno neu'n anghytuno â'r cynnig y dylai'r asesiadau ar gyfer y cymhwyster TGAU Cymraeg Ail Iaith diwygiedig fod yn llinol?**

- Cytuno'n gryf
- Cytuno
- Ddim yn cytuno nac yn anghytuno
- Anghytuno
- Anghytuno'n gryf
- Ddim yn gwybod

Sylwadau (a fydddech cystal â rhoi sylwadau, yn enwedig os ydych yn anghytuno â'r cynnig)



## TGAU Cymraeg Ail Iaith

### Datblygiad proffesiynol parhaus/adnoddau

**C8: Pa gymorth ac adnoddau y gall fod eu hangen ar ganolfannau ac athrawon er mwyn bod mor barod â phosibl i gyflwyno'r fanyleb ddiwygiedig yn eich barn chi?**

**Rhowch sylwadau**



## TGAU Cymraeg Ail Iaith

### Effeith ar gydraddoldeb

Yn ôl Deddf Cydraddoldeb 2010 rhaid i gyrff cyhoeddus roi 'sylw dyledus', wrth wneud penderfyniadau, er mwyn sicrhau nad oes unrhyw wahaniaethu, aflonyddu nac erledigaeth mewn perthynas ag unigolion na grwpiau, er mwyn cyflawni cydraddoldeb a meithrin cydberthnasau da o ran nodweddion gwarchoddedig (oedran, rhyw, anabledd, cyfeiriadedd rhywiol, hil, crefydd, priodas a phartneriaeth sifil, beichiogrwydd a mamolaeth ac ailbennu rhywedd).

**C9: O ystyried hyn, nodwch isod a allai unrhyw ran o'r cynnig hwn gael effaith gadarnhaol neu negyddol ar unigolion â nodweddion gwarchoddedig a ph'un a fyddai unrhyw ran o'r cynnig yn peri problemau o ran hygyrchedd i ddysgwyr yng Nghymru.**



## TGAU Cymraeg Ail Iaith

### Manylion personol

**Cyfranogwyr dan 16 oed - gofynnir i BEIDIO â llenwi'r adran hon.**

Os byddwch yn rhoi manylion cyswllt, efallai y gwnawn gysylltu â chi am eglurhad o'ch atebion. Ni fydd Cymwysterau Cymru yn rhannu'r manylion hyn, na'ch atebion, ag unrhyw drydydd parti.

#### Manylion personol

Enw

Sefydliad

Cyfeiriad e-bost

#### A ydych yn ymateb fel unigolyn, neu ar ran eich sefydliad?

- Unigolyn
- Sefydliad

#### Dewiswch y math o sefydliad neu dewiswch 'amherthnasol' os ydych yn ymateb fel unigolyn.

- Ysgol
- Coleg
- Prifysgol
- Corff Dyfarnu Cymwysterau
- Llywodraeth (Lleol, Cenedlaethol, y DU neu'r UE)
- Amherthnasol
- Arall

**Beth ydych chi? (dewiswch fel sy'n briodol)**

- Athro
- Darlithydd Coleg
- Darlithydd Prifysgol
- Myfyriwr
- Rhiant
- Arall